



National  
Trust

# Her Archwiliwr Treftadaeth



A wyddoch chi fod y gerddi a'r parciau yr ydych yn ymweld â nhw yn llawn cyfrinachau o'r gorffennol? Y tu mewn, mae darnau o hanes cudd a syfrdanol yn barod i gael eu darganfod – os gwyddoch lle yn union i chwilio. Gallwch ddod yn archwiliwr treftadaeth gyda'r daflen adnabod a gweld sawl peth y gallwch eu canfod. **Gadewch i ni wybod beth ddewch chi o hyd iddo! Twitter @NatTrustArch a Facebook @NationalTrustArchaeology**

## Darganfyddwch dŷ ar gyfer colomennod

Chwiliwch am dŷ colomennod crand ac unigol, neu frics coll yn uchel ar frig yr adeiladau, sydd yn dyllau ar gyfer nythu. **Pam fodd pobl yn cadw colomennod yn eich barn chi?**



## Peidiwch â syrthio i mewn i'r ha-ha!

Ffos wedi ei chuddio yw ha-ha sy'n ffin rhwng y gerddi a pharcdir, gan roi'r argraff nad yw yno o gwbl. Mae amryw yn credu y daw'r enw wrth i bobl chwerthin wrth weld rhywun anffodus yn syrthio i mewn, ond y gwir reswm yw syndod pobl wrth iddynt ddod ar draws rhywbeth cuddiedig. **Edrychwch allan o'r ardd. A welwch chi wartheg, defaid neu geirw y tu hwnt i'r ha-ha? Beth oedd ei bwrpas yn eich barn chi?**



## Crwydrwch ar hyd yr ardd furiog

Byddai gerddi muriog wedi tyfu'r holl fwyd a'r blodau ar gyfer y tŷ. Meddyliwch am yr holl waith dyfrio, cyn dyddiau chwistrellwyr dŵr. Yn hytrach, byddai garddwyr wedi defnyddio pwll er mwyn dyfrio'r planhigion. **Allwch chi ddod o hyd i fodau, ffrwythau a llysiau sy'n tyfu yno? Ac a welwch chi'r pwll?**



## Darganfyddwch hanes byw

Tyfwyd coed ffrwythau mewn perllannau hefyd neu mewn llwyni a oedd yn blodeuo yn y gwanwyn ac yn cynnig ffrwythau neu gnau yn yr Hydref. Mae llawer o'r coed ffrwythau sy'n tyfu yn ein safleoedd wedi bod yno ers cannoedd o flynyddoedd. **Pa ffrwythau allwch chi ddod o hyd iddynt?**



## Darganfyddwch ffugadeilad

Mae llawer o'r ystadau sydd yn ein meddiant yn cynnwys ffugadeilad yn rhywle. Nid adeiladau ymarferol oedd y rhain, ond cawsant eu hadeiladu i edrych yn ddiddorol ac i greu argraff ar ymwelwyr. **Sut ffugadeilad fydddech chi'n ei adeiladu i greu argraff ar eich ffrindiau?**



## Syllwch i mewn i lyn

Gall y llynnoedd yn ein gerddi a'n parciau fod yn anferth, yn llawn bywyd gwyllt gydag amryw o goed yn eu hamgylchynu – ond nid llynnoedd naturiol yw'r rhan helaeth ohonynt. **Beth welwch chi'n cael ei adlewyrchu ar wyneb y dŵr.**



## Teithio drwy amser yn y stablau

Cyn dyddiau ceir a pheiriannau, ceffylau oedd yn cludo pobl o gwmpas gan gynnig 'pwer ceffyl' i'n hystadau. Oherwydd hyn, yn aml roedd gan yr ystadau stablau crand hefyd ac mae amryw ohonynt bellach wedi eu haddasu'n gaffis a siopau. **A allwch chi weld ymhle roedd y ceffylau'n byw?**



## Ffordd neu rodfa goed

Yn aml cafwyd rhodfeydd o goed wrth ymyl y prif dŷ, weithiau er mwyn creu mynedfa ysblennydd neu weithiau i gerdded ar ei hyd. Mae rhai o'n rhodfeydd dros 2 filltir o hyd, ac mae Lime Avenue yn Clumber Park yn cynnwys 1296 o goed. **A allwch chi ddod o hyd i rodfa goed? Faint o goed allwch chi eu cyfrif?**



## Dywedwch helo wrth gerflun

Mae gerddi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn llawn pob math o gerfluniau, rhai mawr a rhai bach. Edrychwch i fyny i weld rhai yn syllu arnoch o doi y tai, gargoeliau yn aml iawn, neu rai sy'n cuddio rhwng y llwyni. **A welwch chi gerflun o rywun sy'n gyfarwydd?**

